CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD 6 HYDREF 2004 YN NHŶ CARADOG, PLAS SANT ANDREAS, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. David Carr

1. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

1.1 **Cytunwyd** ar y rhain.

2. Materion yn Codi

2.1 Materion Technoleg Gwybodaeth

2.1.1 **Nodwyd** bod prisiau yn parhau i gael eu disgwyl gan MERLIN/ICT am uwchraddio'r cyswllt data cyflym iawn rhwng Tŷ Caradog a'r Cynulliad.

2.1.2 **Nodwyd** bod y Comisiwn yn dal i aros am wybodaeth gan Siemens Business Services ynghylch anfonebau.

2.1.3 **Nodwyd** bod Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi anfon ateb at yr Ysgrifennydd gan egluro eu bod yn ymchwilio i'r sefyllfa ynghylch anfonebau Siemens ac y ceid ateb llawn gan y Comisiwn unwaith y byddai'r ymchwiliadau hynny wedi'u cwblhau.

2.2 Adolygiad o ran o'r ffin rhwng cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

2.2.1 **Nodwyd** bod llythyrau cychwynnol wedi'u hanfon ynghylch yr adolygiad hwn.

2.3 Hyfforddiant Cyfrifeg i Gomisiynwyr

2.3.1 **Nodwyd** nad oedd cyrsiau wedi'u nodi eto.

3. Adolygiad Cilgerran – Adroddiad Cynigion Drafft

3.1 Cynigiodd y Comisiynwyr ddiwygiadau amrywiol i'r drafft a osodwyd o'u blaenau.

3.2 **Cytunwyd** bod drafft diwygiedig yn cynnwys y cynhigion hyn yn cael ei gytuno trwy gyfrwng e-bost, gyda'r Ysgrifennydd yn cydlynu'r atebion, a bod y drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno unwaith eto i ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn.

4. Trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Agored Cyffredinol Blynyddol

4.1 Nododd y cyfarfod y trefniadau ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Comisiwn a oedd i'w gynnal ar y diwrnod canlynol.

4.2 **Cytunwyd** y cyfeirir at y Cyfarfod Blynyddol o dan ei deitl llawn, sef "Cyfarfod Agored Cyffredinol Blynyddol" ar bob gohebiaeth a dogfennaeth yn y dyfodol.

5. Adroddiad Cyllidol – Ail Chwarter 2004/05

5.1 **Cytunwyd** i dderbyn yr adroddiad.

6. Cynllun Gweithredol Drafft 2005/06

6.1 Trafodwyd y cynllun.

6.2 **Cytunwyd** i wneud rhai mân ddiwygiadau cyn i'r cynllun gael ei dderbyn a'i gyflwyno i'r Cynulliad.

7. Polisi Chwythu'r Chwiban

7.1 **Nododd** y cyfarfod, bapur yn argymell bod staff y Comisiwn yn cael mynediad at drefn gwyno fel rhan o'r adolygiad o bolisi "Chwythu'r Chwiban" y Comisiwn.

7.2 **Cytunwyd** er bod y diwygiadau i'r Datganiad Rheolaeth a'r Memorandwm Ariannol yn parhau heb fod wedi'u cwblhau, y dylai'r Comisiwn fabwysiadu polisi cwynion Llywodraeth Cynulliad Cymru fel trefn dros dro hyd oni ddatryswyd materion yn ymwneud â dirprwyo pŵer.

8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Ymgyrch Lleihau Gwastraff yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

8.1.1 Dosbarthwyd copïau o bapur Lleihau Gwastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8.1.2 **Cytunwyd** i drafod ymateb y Comisiwn i'r papur yn ei gyfarfod nesaf.

8.2 Polisi Gofalwyr

8.2.1 **Dywedwyd** bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi papur yn ddiweddar ynghylch "Polisi Gofalwyr".

8.2.2 **Nodwyd** nad oedd unrhyw oblygiadau yn y papur hwn i'r Comisiwn ar hyn o bryd.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

9.1 Câi dyddiad y cyfarfod nesaf ei benderfynu unwaith y cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer cyfarfod â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.